❖ Y Nadolig

Beth yw ystyr y Nadolig
I'r newynog ar ei rawd?
Glywir carol yn yr Affrig,
Seinir tant ar fant y tlawd?

Beth yw ystyr y Nadolig
Pan arlwyir gloddest lawn,
Wrth anghofio'r difreintiedig
Llwm ei faes 'rôl colli'r grawn?

Beth yw ystyr y Nadolig
Heddiw'n sŵn y brwydrau lu,
Troi'r rudd arall yn hwyrfrydig,
Ffrwydro bomiau erch eu rhu?

Collwyd ystyr y Nadolig,
Diffodd wnaeth y seren wen,
Am fod Iesu'n wrthodedig,
Am fod Herod yma'n ben.

D. Hughes Jones

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com